

## Agenda – Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

Lleoliad:	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgora 5	Catherine Hunt
Dyddiad: Dydd Mercher, 7 Chwefror 2024	Clerc y Pwyllgor 0300 200 6565
Amser: 09.00	<a href="mailto:SeneddTai@senedd.cymru">SeneddTai@senedd.cymru</a>

(Rhag-gyfarfod 08.45 – 09.00)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau  
(09.00)

2 Y Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) – Tystiolaeth gan y  
Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

(09.00 – 10.30) (Tudalennau 1 – 58)

Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

Ben Crudge, Pennaeth Polisi Trethi Lleol, Llywodraeth Cymru

Simon Tew, Rheolwr y Bil, Llywodraeth Cymru

Ruth Cornick, Cyfreithiwr, Llywodraeth Cymru

[Y Bil Cyllid Llywodraeth Leol \(Cymru\)](#)

[Memorandwm Esboniadol](#)

[Datganiad o Fwriad y Polisi ar gyfer Is-ddeddfwriaeth](#)

3 Papurau i'w nodi

(Tudalen 59)

3.1 Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol – Cyllideb Ddrafft  
Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023–24

(Tudalennau 60 – 62)



**3.2 Llythyr gan y Welsh Cladiators – Diogelwch adeiladau**

(Tudalennau 63 – 64)

**3.3 Llythyr gan Crisis UK at y Prif Weinidog a'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol – Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024–25**

(Tudalennau 65 – 66)

**3.4 Llythyr gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i'r Prif Weinidog – Y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol**

(Tudalennau 67 – 68)

**3.5 Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol – Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru)**

(Tudalen 69)

**4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod**

(Egwyl 10.30 – 10.40)

**5 Y Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) – trafod y dystiolaeth a'r prif faterion**

(10.40 – 11.40)

**6 Blaenraglen waith**

(11.40 – 12.30)

(Tudalennau 70 – 81)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 3

## Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

### 7 Chwefror 2024 – clawr y papurau i'w nodi

Rhif y papur	Mater	Oddi wrth	Gweithredu
Papur 1	Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024–25	Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol	I'w nodi
Papur 2	Diogelwch adeiladau	Welsh Cladiators	I'w nodi
Papur 3	Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024–25	Crisis UK	I'w nodi
Papur 4	Y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol	Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i'r Prif Weinidog	I'w nodi
Papur 5	Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru)	Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol	I'w nodi



John Griffiths MS  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

29 Ionawr 2024

Annwyl John,

Diolch am y gwahoddiad i roi dystiolaeth ichi am y gyllideb ddrafft ar 18 Ionawr. Yn ystod y sesiwn, addewais y byddwn yn ysgrifennu i ddarparu rhagor o wybodaeth am rai meysydd.

### Gweithio gyda Llywodraeth leol i sicrhau bod y rhai sydd â hawl i dderbyn cymorth y dreth gyngor yn ei gael

O 21 Mawrth i 7 Mai 2022, cafodd ymgyrch ei chynnal gan Lywodraeth Cymru i godi ymwybyddiaeth o gymorth y dreth gyngor. Roedd yr ymgyrch yn debyg i'r ymgyrch honno a lansiwyd yn 2019 ynglŷn â chymorth y dreth gyngor. Cafodd hysbysebion wedi'u targedu eu defnyddio i hysbysu'r cyhoedd am ostyngiadau ac esemttiadau'r dreth gyngor y gallai fod ganddynt hawl iddynt. Roedd y gwahanol grwpiau a dargedwyd fel a ganlyn:

- Pob oedolyn – Cymraeg
- Pob oedolyn – Saesneg
- Gofalwyr
- Unigolion Anabl
- Unigolion sy'n derbyn Credyd Cynhwysol
- Aelwydydd incwm isel
- Unigolion ag amhariad meddyliol difrifol
- Pobl sy'n byw ar eu pennau eu hunain
- Myfyrwyr

Cafodd slipiau ymwybyddiaeth eu dosbarthu i awdurdodau lleol i'w cynnwys mewn llythyrau atgoffa a gwysiau sy'n ymwneud â'r dreth gyngor, ynghyd â phosteri i'r awdurdodau eu harddangos mewn lleoliadau amlwg. Anfonodd Llywodraeth Cymru hefyd becyn cymorth digidol i randdeiliaid allanol a sefydliadau. Ar y cyfan, mae ymateb y cyhoedd i'r ymgyrch hon wedi bod yn gadarnhaol.

Cafodd Siarter Budd-daliadau Cymru ei lansio yn ddiweddar, ar 22 Ionawr, gan y Gweinidog Cyflawnwr Cymdeithasol a'r Prif Chwip. [Siarter Budd-daliadau Cymru | GOV.UK](#) Mae'r Siarter yn gyfres o ymrwymiadau sylfaenol ar gyfer cydweithio tuag at ddarparu Budd-daliadau Cymru sy'n canolbwytio ar yr unigolyn, ac mae'n ganolog i'n

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales](mailto:Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales)  
[Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and responding in Welsh will not lead to a delay in responding.

gwaith i symleiddio system Budd-daliadau Cymru. Mae'n berthnasol i'r holl grantiau a thaliadau i unigolion sy'n cael eu llywodraethu gan Lywodraeth Cymru, megis Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, Prydau Ysgol am Ddim, Grantiau Hanfodion Ysgolion ac ati. Cafodd y Siarter ei llofnodi a'i dilysu gan arweinydd pob un o'r 22 o awdurdodau lleol yng nghyfarfod y Cyngor Partneriaeth ar 23 Tachwedd, gan ddangos yr ymrwymiad a rennir i wella mynediad unigolion at gymorth ariannol.

Bydd cyflwyno'r Siarter yn sicrhau bod y nifer sy'n hawlio budd-daliadau yn weladwy ac yn dryloyw. Bydd hyn yn ysgogi gwelliannau i hygyrchedd y system felly, gan alluogi rhagor o bobl yng Nghymru i fanteisio ar eu hawl i gymorth ariannol a sicrhau bod budd-daliadau Cymru yn cael eu gweinyddu mewn modd effeithlon a chyson ledled Cymru.

Mae lansio'r Siarter yn cynrychioli'r cam cyntaf ar y daith i weithio tuag at system fudd-daliadau Cymru gydlynus – nid yw'r daith honno eto ar ben. Byddwn yn gweithio gyda grŵp llywio allanol i ddatblygu camau gweithredu ymarferol tuag at wireddu ein gweledigaeth o system a fydd yn golygu mai ond unwaith y bydd yn rhaid i berson adrodd ei hanes i gael mynediad at yr holl gymorth y mae ganddo hawl iddo.

Bydd gan y grŵp oruchwyliaeth strategol o'r gwaith i symleiddio system Budd-daliadau Cymru a bydd yn defnyddio ymrwymiadau'r Siarter i lunio cynllun gweithredu a fydd yn cynnwys camau gweithredu wedi'u targedu. Mae'r Grŵp yn dwyn ynghyd arbenigwyr o bob rhan o'r llywodraeth ganolog, llywodraeth leol a'r trydydd sector. Yn ddiweddar, cafodd Fran Targett, sydd a chanddi ddegawdau o brofiad yn y maes, ei phenodi yn Gadeirydd y Grŵp Llywio i yrru'r gwaith yn ei flaen yn gyflym. Bydd y cyfarfod cyntaf yn cael ei gynnwl ar 14 Chwefror.

## Amrediad o ffynonellau dystiolaeth / data i ddeall barn y cyhoedd am wasanaethau

Arolwg Cenedlaethol Cymru yw un o brif ddulliau Llywodraeth Cymru o wybod beth yw barn pobl am wasanaethau cyhoeddus. Mae wedi cael ei gynnwl ers 2012, gan gasglu gwybodaeth oddi wrth tua 12,000 o bobl y flwyddyn am amrediad eang o bynciau gan gynnwys barn am wasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol, ysgolion ac awdurdodau lleol. Defnyddir y canlyniadau i lywio'r broses o wneud penderfyniadau gan Lywodraeth Cymru a sefydliadau cyhoeddus eraill ar draws Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn casglu ac yn cyhoeddi amrediad eang o ddata ystadegol ar wasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys ar ysgolion, y GIG, gofal cymdeithasol a thai.

Bob blwyddyn, mae'r Prif Ystadegydd yn llunio adroddiad Llesiant Cymru sy'n darparu asesiad cyffredinol o gynnydd Cymru tuag at y saith nod llesiant a nodir yn Nedd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae ffynonellau pellach o adrannau eraill y llywodraeth sy'n darparu rhagor o dystiolaeth. Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) yn gyfrifol am Gyfrifiad Poblogaeth Cymru a Lloegr, sy'n rhoi mynediad i Lywodraeth Cymru at amrediad eang o wybodaeth fanwl am boblogaeth Cymru.

Mae nifer o arolygon eraill sy'n cael eu cynnal gan adrannau eraill o'r llywodraeth hefyd yn cwmpasu Cymru, ac mae Llywodraeth Cymru yn darparu rhywfaint o gyllid i hybu'r sampl yng Nghymru. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Arolwg o Adnoddau Teulu yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) sy'n rhoi modd inni o fonitro lefelau tlodi a chyllid aelwydydd yng Nghymru.
- Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth SYG sy'n darparu amrediad o ddata ar y farchnad lafur a nodir yn y gwyddon am ymddygiad yng Nghymru.

Mae darparu cyllid i hybu maint y sampl yng Nghymru ar gyfer yr arolygon hyn yn golygu bod modd llunio dadansoddiad o'r data ar gyfer Cymru na fyddai'n bosibl ei gyflawni pe bai maint y sampl yn llai.

### **Diweddariad ar y trafodaethau rhwng y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol a chydweithwyr mewn Llywodraeth leol ynghlyn â'r pwysau ar gyllid gofal iechyd**

Mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol yn cyfarfod â chydweithwyr mewn Llywodraeth leol fel rhan o'u cyfarfodydd chwarterol gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC). Cynhaliwyd y cyfarfod diwethaf rhwng y Gweinidogion a CLILC ar 15 Ionawr 2024, a, chyn hynny, cafwyd cyfarfod ar 19 Hydref 2023. Roedd y pynciau a drafodwyd yn cynnwys:

- y cap mewn perthynas â chostau gofal dibreswyl
- parodrwydd ar gyfer y gaeaf
- cydnherthedd y system ac 'Ymhellach yn Gyflymach'
- y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 24-25
- adborth ar flaenoriaethau Llywodraeth Cymru a'r ymgynghoriad diweddar ar y rhaglen ail-gydbwys, gan gynnwys datblygu swyddfa genedlaethol, fframwaith cenedlaethol a'r Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol

Mewn perthynas â gofal iechyd parhaus a'r hyn sy'n gyfrifoldeb ar y GIG, mae canllawiau clir wedi'u nodi yn Fframwaith Gofal Iechyd Parhaus y GIG. Cafodd 'Gofal Iechyd Parhaus y GIG: Y Fframwaith Gweithredu Cenedlaethol yng Nghymru' ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru yn 2021. Mae'n nodi polisi Llywodraeth Cymru ar gymhwysedd i gael gofal iechyd parhaus, ac mae'n nodi hefyd gyfrifoldebau sefydliadau'r GIG a'r awdurdodau lleol. Mae'r fframwaith hwn wedi bod yn weithredol ers 1 Ebrill 2022.

Mae'r fframwaith yn nodi'r broses i'w defnyddio gan y GIG, gan gydweithio â'r awdurdodau lleol a phartneriaid eraill, ar gyfer asesu anghenion iechyd, penderfynu yngylch cymhwysedd i gael gofal iechyd parhaus a darparu gofal priodol. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol a byrddau iechyd weithredu gofynion y Fframwaith Cenedlaethol yn llawn.

Un elfen o blith yr amrediad o wasanaethau y mae angen iddynt fod ar waith gan awdurdodau lleol a chyrff y GIG ar gyfer cefnogi pobl ag anghenion iechyd a gofal cymdeithasol yw gofal iechyd parhaus.

Mae Llywodraeth Cymru yn disgwl i fyrrdau iechyd lleol a'u partneriaid gydweithio er mwyn cyflawni'r canlyniadau gorau posibl i ddinasyddion Cymru. Gweithio mewn partneriaeth yn effeithiol, gan integreiddio a gweithredu'r Fframwaith, yw'r egwyddor sylfaenol.

Rwy'n gobeithio y bydd yr wybodaeth ychwanegol hon yn ddefnyddiol ichi.

Yn gywir



**Rebecca Evans AS/MS**

Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol  
Minister for Finance and Local Government  
Tŷ Gwynedd, Brecyn 62

## 12 January 2024

As previously stated, we would welcome the opportunity to appear before the Committee given the lack of progress being made in the private sector. Whilst developers build on "at pace" in massive sites such as Plasdwr in West Cardiff, decent, honest, hard working citizens who did everything right are being left to wait and wait. We face years of uncertainty and disruption. We trust the Committee are conscious of the parallels between the Post Office Scandal and the Welsh / English Building Safety Crisis:

*Shocking levels of corporate denial, deflection and obfuscation*

*A woefully inadequate legal framework*

*Use of expensive lawyers to intimidate victims*

*Officialdom indifference*

*Weak media coverage of a major public safety crisis*

*Lives being destroyed and put on hold - for six years*

We ask the Committee to seek input from "on the ground victims" and to call on the WG Minister to:

*Publish a comprehensive update on the numbers of buildings in need of remediation in Wales (both social and private sector homes)*

*The current rate of progress from developers on the remediation of their responsible fire defective homes. Homes requiring remediation, works completed, works yet to begin, expected dates for completion ( there is one development in Cardiff Bay that still has scaffolding up after four years of works?!?)*

*We also think it is time that the Committee called developers to give evidence on the crisis. Welsh citizens need to know that any new homes they are purchasing are fire safe, particularly given the recent critical Audit Wales report on Building Control.*

Diolch yn fawr

With regards

Mark Thomas - Robert Nicholls - Welsh Cladiators

## 30 January 2024

Since last writing we would like to advise the Committee of important legal developments in England.

The first-tier tribunal (FTT) has ruled that Stratford Village Development Partnership SVDP, the developer of East Village, (former Stratford Olympic Village) and its parent company Get Living must pay £18m towards making five of the 66 blocks safe.

The ruling makes use of the new BSA (sections 116-125) that invokes the use of Remediation & Contribution Orders (RCOS) to force responsible persons - developers and freeholders - to pay for fire defective homes. Other RCOs have also now been announced in England since the profound Stratford Village ruling

The Committee will no doubt recall that in November 2022 the Welsh Labour Government voted against Sections 116-125 becoming law in Wales. To quote Minister Julie James "we just don't need the sections in Wales."

Consequently, many totally innocent Welsh private homeowners have had to take the difficult decision of litigating against developers in Wales with all the attendant personal costs and risks. In recent weeks we have been made fully aware of the similarities with the long suffering plight of the victims of the Post Office Scandal.

Despite Julie James' continued upbeat Senedd statements about the Welsh crisis, remediation works by responsible developers are not progressing "at pace." We know, almost one year on from developers signing the WG's contract, that both at Celestia (Redrow) & Altamar (Swansea - Bellway Homes) no remediation work is taking place.

In a recent reply to a written question from Rhys ab Owen , the Minister confirmed that of the 113 buildings in Wales requiring fire remediation works:

- *1 building has been completed.*
- *34 buildings have contractors on site and works underway.*
- ***9 buildings are having fire safety solutions designed or procurement is underway.***
- ***69 are having preparatory work undertaken to inform the schedule of work.***

These figures (which lack important details) are deeply concerning and should be a matter of widespread Welsh public concern and safety. We also have no idea of what progress is being made on the many orphan buildings in Wales. The depressing figures mirror the English crisis, where there is also widespread anger at the dismal rate of progress being made by developers.

We thank the Committee for their time and look forward to hearing from them

We are copying some of our wider political supporters so that they are advised of our long running concerns

With kind regards

Mark Thomas & Robert Nichols - on behalf of Welsh Cladiators

Dear First Minister and Minister for Finance and Local Government,

We write on behalf of the Ending Homelessness National Advisory Board as chair of the board and of its associated working group on the housing and homelessness workforce to emphasise the significant and pressing concern regarding the static Housing Support Grant (HSG). This grant provides vital funds to deliver homeless prevention services across Wales but has long been overstretched.

We appreciate that these are incredibly difficult economic times and that, amidst cutting many other areas of Welsh Government funding, the HSG budget has sustained the same level of funding as last year. However, with the rise in numbers of people seeking support for homelessness and inflation driving service delivery costs upwards, these budgets are being stretched well beyond their limits.

You will, no doubt, be well aware of the recently published [Housing Matters](#) report by Cymorth Cymru and Community Housing Cymru, which indicates that 77% of services say they are likely to reduce their services and 40% to hand back contracts with the HSG remaining static.

As Chair of the board, I previously wrote to the Minister for Climate Change and the Minister for Finance and Local Government to share these concerns. However, the board has just met for the first time since the publication of the draft budget and it is clear from colleagues in local government and from providers of housing support that we have now reached a tipping point. The board heard reports from service providers who no longer consider it viable to bid on contracts as well as from commissioning local authorities who cannot find providers to deliver services due to insufficient funding.

Members of the board strongly support the Welsh Government's national plan to End Homelessness, alongside the world-leading proposals contained in the recent White Paper on legal reform. However, stakeholders across the board feel the current reality and likely reduction in services caused by a real term cut to the HSG budget will undermine those plans.

We are lucky in Wales to have many dedicated staff supporting those facing homelessness, but the board's subgroup on workforce is concerned that these valuable workers are being pushed beyond their limits. The group has spent the past year looking at how we can better support, recruit and retain our much-needed workforce, but is anxious that the ongoing budget situation places this in jeopardy. We are aware that Cymorth and CHC have recently written to you with concerns that a substantial proportion of staff working in HSG services are currently being paid below the forthcoming minimum wage and the Real Living Wage. Members of the board are concerned that a cash-flat budget will make it extremely difficult for providers to increase pay to even the minimum wage, and to retain these hardworking, highly skilled staff.

In writing to you, the board is also keen to stress the ripple effect that the failure to uplift these services in such difficult times will, in turn, have upon other services. As experts on homelessness prevention, it is clear to members of the board that investing in homelessness prevention not only saves individuals from living out the trauma of homelessness, but also saves the public purse in the longer term. Through the support that it funds, the HSG reduces pressure on a range of public services. For example, by investing in homelessness prevention and keeping people in homes, we reduce future demand on health services and delayed discharges from hospitals; we reduce safeguarding risks; and we reduce re-offending rates among prison leavers. Indeed, research conducted by Cymorth Cymru and Cardiff Metropolitan University found that every £1 invested in HSG services delivers £1.40 net savings to our nation's wider public services.

The ongoing monetary constraints on homelessness prevention also place wider key Welsh Government initiatives at risk. For example, the national approach to end violence against women,

domestic and sexual abuse, as refuges rely on the HSG to fund their support for women and children fleeing abuse.

We understand that the Welsh Government is facing incredibly difficult budget decisions in exceptionally hard financial times, but it is precisely because times are economically harsh that we must prioritise investment in homelessness prevention. This will not only help to protect the increasing numbers of people at risk of losing their homes, but will also help to protect wider public budgets for the future. As the Welsh Government draws closer to making its final budget announcement, we are under no illusions that there will continue to be tough decisions to be made. However, we strongly urge that, wherever it may be possible to do so, an uplift is granted to the crucial HSG funding.

Many thanks in advance for considering the points raised within this letter.

Yours sincerely,

**Matt Downie**, Chair of the Ending Homelessness National Advisory Board

**Clare Budden**, Chair of the Housing and Homelessness Workforce group

Matthew Downie  
**Chief Executive**



[www.crisis.org.uk](http://www.crisis.org.uk)

T: (direct)  
50-52 Commercial Street, London E1 6LT

Crisis UK (trading as Crisis). Registered Charity Numbers: E&W1082947, SC040094. Company Number: 4024938

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth,  
Cyflawnder a'r Cyfansoddiad****Legislation, Justice and  
Constitution Committee****Welsh Parliament**

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

SeneddLJC@senedd.wales

senedd.wales/SeneddLJC

0300 200 6565

Y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AS

Prif Weinidog Cymru

31 Ionawr 2024

Annwyl Mark,

**Y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol**

Fel y gwyddoch, mae'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyflawnder a Chyfansoddiad wedi bod yn ystyried ac yn adrodd ar femoranda cydsyniad deddfwriaethol Llywodraeth Cymru a osodwyd gerbron y Senedd mewn perthynas â Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol Llywodraeth y DU (y Bil).

Yn ein cyfarfod ar 22 Ionawr 2024, lle y gwnaethom gytuno ar ein hadroddiad ar Femorandwm Rhif 3 ar y Bil, gwnaethom drafod y darpariaethau yn y Bil sy'n ymwneud â marchnata uniongyrchol at ddibenion ymgysylltu democrataidd (cymal 114 yn y Bil fel y'i dygwyd o Dŷ'r Cyffredin). Yn ôl a ddeallwn, mae Llywodraeth y DU o'r farn nad yw'r cymal hwn yn ymwneud â'r broses cydsyniad deddfwriaethol yng Nghymru, ac nid yw memoranda cydsyniad deddfwriaethol a osodwyd gerbron y Senedd hyd yma wedi cynnwys cyfeiriad at y cymal hwn fel darpariaeth berthnasol.

Gwnaethom hefyd drafod eitem yn y Financial Times a gyfeiriodd at lythyr gan y Gweinidog Data a Seilwaith Digidol ar y pryd, Syr John Whittingdale, at Aelod o Senedd y DU a oedd yn cadarnhau, yn ôl y sôn, y gallai Llywodraeth y DU yn y dyfodol 'ddiffodd' dros dro rhai rheolau marchnata uniongyrchol yn y cyfnod cyn etholiad.

Oherwydd ein hystyriaeth o'r memoranda cydsyniad deddfwriaethol a'n diddordeb ehangach mewn materion cyfansoddiadol, byddem yn croesawu cael eich barn a rhagor o fanylion ynghylch nifer o faterion:

1. Beth yw asesiad Llywodraeth Cymru o gymal 114 yn ymwneud â Rheol Sefydlog 29 (os o gwbl)?



2. A yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud unrhyw asesiad o effaith bosibl y ddarpariaeth ar etholiadau datganoledig Cymru?
3. Mae cymal 114(5) o'r Bil yn darparu bod rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol, cyn gwneud rheoliadau o dan y pŵer hwn, ymgynghori â'r Comisiynydd Gwybodaeth ac unrhyw bersonau eraill y mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn eu hystyried eu bod yn briodol. A yw Llywodraeth Cymru wedi cael unrhyw drafodaethau â Llywodraeth y DU ynghylch a ymgynghorid â Gweinidogion Cymru mewn perthynas ag unrhyw effaith ar y defnydd o ddata sy'n ymwneud ag etholiadau datganoledig Cymru gan reoliadau a wneir o dan gymal 114?
4. A yw Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o unrhyw gynllun gan Lywodraeth y DU i 'ddiffodd' rheolau marchnata uniongyrchol cyn etholiad cyffredinol yn y DU?

Byddwn yn ddiolchgar o gael eich ateb erbyn 14 Chwefror 2024.

Anfonir copi o'r llythyr hwn at y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, ac at y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies

Cadeirydd



John Griffiths AS  
Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai  
Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1SN

1 Chwefror 2024

Annwyl John,

**Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru)**

Pan fynychais gyfarfod y pwylgor ar 13 Rhagfyr 2023, cyfeiriais at waith a gafodd ei wneud gan Brifysgol Bangor mewn perthynas â threth gwerth tir. Mae'r gwaith, a gyhoeddwyd yn 2020, yn gwerthuso pa mor ymarferol fyddai cyflwyno treth gwerth tir ac yn nodi'r gwaith pellach y byddai angen ei wneud er mwyn symud ymlaen ymhellach tuag at greu treth o'r fath.

Mae manylion y gwaith hwn i'w weld [yma](#).

Yn gywir



**Rebecca Evans AS/MS**  
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol  
Minister for Finance and Local Government

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and responding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales](mailto:Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales)  
[Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru)

# Eitem 6

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon